**Dyddiad:** 11 Hydref 2000

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Y Rhaglen Datblygu Gofal

## Y RHAGLEN DATBLYGU GOFAL

## CYFLWYNIAD

1. Sefydlwyd y Rhaglen Datblygu Gofal gan y Cynulliad Cenedlaethol i newid gofal dewisol ar draws yr NHS yng Nghymru, er mwyn lleihau amserau aros mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n rhaglen uchelgeisiol, gan gydweithio â'r NHS i roi trefniadau a systemau yn eu lle er mwyn rhoi argymhellion y Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros ar waith. Cyflwynwyd adroddiad y Grp hwn i'r Pwyllgor ar 14 Medi.

2. Gweithredu a darparu yw hanfodion y Rhaglen Datblygu Gofal, a'i bwriad yw lledaenu arferion gorau a datblygu ffyrdd newydd o weithio.

3. Mae'r papur hwn yn nodi diben y Rhaglen ac yn nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**JANE HUTT**
**Ysgrifennydd y Cynulliad**

## DIBEN Y RHAGLEN

4. Diben y Rhaglen Datblygu Gofal yw:

- gweithredu fel catalydd i symbylu'r newid a'r datblygiadau newydd sydd eu hangen yn yr NHS yng Nghymru er mwyn lleihau amserau aros a rhestrau aros mewn modd cynaliadwy;

- sicrhau bod holl sefydliadau'r NHS yng Nghymru yn cyflwyno ac yn arddel yr arferion gorau o ran blaenoriaethu a thrin cleifion;

- moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y caiff gofal dewisol ei ddarparu yng Nghymru, gan fwrw golwg ar y system gyfan o safbwynt y claf;

- rhoi modd i'r Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd ddarparu newid.

5. Bydd y Rhaglen yn dwyn ynghyd yr argymhellion perthnasol sy'n deillio o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru ac mewn mannau eraill, a bydd yn ganolbwynt ar gyfer rhoi'r argymhellion hyn ar waith. Cyfrifoldeb y Rhaglen hon hefyd yw dechrau ar y gwaith o weithredu amcan y Cynulliad Cenedlaethol o reoli amserau aros drwy system o roi blaenoriaeth yn ôl yr angen clinigol a chyflwyno systemau cadw lleoedd ar gyfer yr holl agweddau ar ymchwilio a gofal, a hynny o fewn y telerau a nodir yn adroddiad y WTSDG ar 14 Medi.

**DULLIAU GWEITHIO**

6. Bydd y Rhaglen yn gweithio ar draws pob sector sy'n chwarae rhan yn y broses o ddarparu gofal iechyd i gleifion yn y maes gofal dewisol. Mae gan y Tîm ystod o ddulliau i ddarparu newid:

- datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd;
- cymhwyso safonau a diffiniadau cyffredin;
- rheoli a chydlynu rhaglenni Cymru-gyfan ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, megis y rhaglen ar Systemau Cadw Lleoedd;
- cymhellion ac anogaeth, er enghraifft, drwy ddarparu arian ysgogi ar gyfer cynlluniau newydd;
- hyrwyddo cydweithrediad â rhaglenni yn Lloegr, megis y Rhaglen Gydweithredu ar Orthopedeg;
- denu'r cyhoedd i gymryd rhan;
- dathlu llwyddiant a hyrwyddo arferion gorau;
- cynhyrchu canllawiau 'Arferion Gorau' ac adolygu gwasanaethau ochr yn ochr â hyn;
- sefydlu Timau Datblygiadau Newydd ac Arferion Gorau;
- cyflwyno cysyniadau ac amcanion y rhaglen mewn mathau eraill o waith;
- sefydlu rhaglenni hyfforddi a rhaglenni cymorth;
- darparu ymgynghoriaeth reoli fewnol i sefydliadau'r NHS;
- cynadleddau a seminarau;
- cyfathrebu - ymweld a thrafod.

**Y GWAITH SY'N MYND RHAGDDO**

7. Gan ddysgu o lwyddiant y dull a ddefnyddir yn Lloegr, bwriad cam cyntaf y gwaith yng Nghymru yw sicrhau cysondeb a safonau uchel o ran rheoli rhestrau aros. Ar ôl proses ymgynghori, caiff dogfen ei chwblhau o'r enw 'Getting Patients Treated: Expected Standards for Waiting List Management in Wales'.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu ar yr hyn a brofwyd ar draws y DU ac mae'n nodi, yn nhermau ymarferol, sut y dylid rheoli rhestrau aros ar draws yr holl system - o Feddygon Teulu i arbenigwyr, ac yn ôl i'r gymuned. Mae'n nodi rôl a chyfrifoldebau pawb sy'n chwarae rhan yn y broses, gan gynnwys y cleifion.

8. Pan fydd y ddogfen wedi'i chwblhau, bydd aelodau'r Tîm sy'n gyfrifol am y Rhaglen yn adolygu Awdurdodau Iechyd, Grwpiau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yn erbyn y safonau disgwyliedig, gan gytuno ar gynlluniau gweithredu er mwyn cyrraedd y safonau. Yna, bydd gwaith yn cychwyn i roi cymorth i'r staff sicrhau'r newid angenrheidiol, drwy hyfforddiant a datblygiad a chymorth rheoli.

9. Cynhaliwyd seminarau ar hyd a lled Cymru, gan ddod ynghyd â phawb sy'n chwarae rhan yn y broses o reoli rhestrau aros, fel rhan o raglen hyfforddi a datblygu. Mae cynhadledd wedi'i threfnu ym mis Tachwedd, gan wahodd siaradwyr o bob cwr o'r DU i sôn am arferion gorau a'u profiadau, er enghraifft, wrth sefydlu systemau cadw lleoedd ac arferion gorau wrth reoli allgleifion. Yn dilyn adolygiad o arferion gorau mewn mannau eraill yn y DU, rhoddir trefniadau yn eu lle i ledaenu'r wybodaeth hon ar draws yr NHS yng Nghymru.

10. Bwriedir sefydlu Timau i fod yn gyfrifol am y Rhaglen ar gyfer pob un o'r meysydd dewisol arbenigol, i roi cyngor ynghylch sut y dylid trefnu gwasanaethau ac edrych ar ffyrdd newydd o leihau amserau aros mewn modd cynaliadwy. Orthopedeg fydd y Tîm cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru.

11. I symbylu ffyrdd newydd o weithio, mae'r Rhaglen wedi gofyn am gynigion o'r gwasanaeth i sefydlu ac adolygu enghreifftiau gwasanaeth gwahanol y bydd y Rhaglen yn eu cefnogi'n ariannol. Pan gaiff y cynlluniau eu gwerthuso, bydd y rhai mwyaf llwyddiannus yn cael eu hymgorffori i gorff y canllawiau arferion gorau yng Nghymru.

12. Mae enghreifftiau o'r cynigion o ran gweithio mewn ffordd flaengar yn cynnwys:

- ehangu meysydd gwaith yr ymarferwyr ym maes ffisiotherapi, gan weithio'n benodol mewn orthopedeg;
- datblygu clinigau 'un stop' ar gyfer pilenni'r llygaid, newid cymalau a mân lawdriniaethau;
- clinigau o dan arweiniad nyrs i gynnal asesiadau anaesthetig cyn cael llawdriniaeth;
- asesu a rheoli cleifion sydd ar restrau aros mewn ffordd aml-ddisgyblaethol yn y gymuned.

**BLAENRAGLEN WAITH**

13. Bydd y Rhaglen Datblygu Gofal yn rhoi rhan i'r cleifion a'r cyhoedd wrth ailgynllunio'r llwybr gofal dewisol. Mae rhaglen ar y gweill i roi rhan i'r cyhoedd.

14. Un o argymhellion y Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros yw y dylid rhoi sgôr blaenoriaeth clinigol i bob claf. Bydd cyflwyno'r system hon yng Nghymru yn rhan o waith y Tîm Datblygu Gofal yn y misoedd i ddod, ond mae mabwysiadu'r system yn gysylltiedig ag agweddau eraill ar y Strategaeth Amserau Aros, sydd hefyd yn cael eu rhoi ar waith.

15. Bydd y Rhaglen yn gweithio ar y cyd â Grwpiau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i gyflwyno rhaglen dreigl o systemau cadw lleoedd, gan elwa ar brofiad cynlluniau peilot a chan gydweithio â chynlluniau Awdurdodau Iechyd yn unol â thargedau cyraeddadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fel yn achos blaenoriaethu, er mwyn cyflwyno systemau cadw lleoedd, bydd angen ymestyn y ddarpariaeth drwyddi draw mewn modd cyfatebol.

16. Elfen bwysig o waith y Rhaglen Datblygu Gofal fydd cydweithio â'r sector Gofal Sylfaenol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i newid patrwm presennol y rhestrau aros. Er enghraifft, gall hyn olygu gwasanaethau newydd o fewn y sector Gofal Sylfaenol, neu ffyrdd gwahanol o gael hyd i ofal eilaidd.

**YR ADNODDAU**

17. Caiff y rhaglen - sy'n werth £800,000 ar hyn o bryd - ei chyllido o adnoddau canolog, a'r arian yn cael ei ddefnyddio mewn 3 maes:

- tîm o 4 o staff (gweler Atodiad 1);
- hyfforddi a datblygu staff yr NHS ledled Cymru a rhoi cymorth iddynt;
- arian ysgogi i brofi ac asesu newidiadau blaengar i'r broses gofal dewisol mewn sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Argymhellodd y Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros y dylid ehangu'r rhaglen.

**ARGYMHELLIAD**

18. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio o dan y Rhaglen Datblygu Gofal.

**ATODIAD 1**

**Y TÎM**

Penodwyd tîm o bedwar, sef:

Susan Burnett - Cyfarwyddwr y Rhaglen, sydd â thros 10 mlynedd o brofiad o reoli o fewn yr NHS ar lefel uwch. Yn fwyaf diweddar, bu'n rheoli Ysbyty Llandochau a Gwasanaethau Cymunedol Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro.

Ann Gray - Cyfarwyddwr Cyswllt y Rhaglen Datblygu Gofal ac Arferion Gorau. Bu Ann yn Gyfarwyddwr Nyrsio yn Ysbyty Orthopedeg Robert Jones ac Agnes Hunt yng Nghroesoswallt.

Huw George - Cyfarwyddwr Cyswllt y Rhaglen Rheoli Amserau Aros.

Bu Huw yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro.

Liz Waites - Cyfarwyddwr Cyswllt Rheoli Gofal Sylfaenol a Rheoli'r Galw amdano. Liz oedd Cyfarwyddwr Prosiect Strategaeth IM&T Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys.

Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi elwa ar arweiniad nyrsys a hyfforddeion rheoli sy'n cael eu secondio am gyfnodau byr.

Caiff Grp Llywio ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o blith clinigwyr, rheolwyr a chleifion.

Ymgynghorwyr meddygol y Rhaglen yw:

Dr David Thomas - Gynecolegydd Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych a chadeirydd diweddar Pwyllgor Meddygol Cymru

Dr Tony Calland - Meddyg Teulu a chadeirydd Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru

Yr Athro Geraint Roberts - Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru